

**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/0491/22

Huw Irranca-Davies AS,  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
[SeneddLJC@senedd.cymru](mailto:SeneddLJC@senedd.cymru)

10 Chwefror 2022

Annwyl Huw ,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Ionawr ac am adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol.

Unwaith eto, rwy'n diolch i'r Pwyllgor am eu sylwadau manwl ac am rannu'r adroddiad. Rwy'n falch o ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani isod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** *Er ein bod yn croesawu camau'r Gweinidog i geisio gwelliant i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dylai'r Gweinidog – ar y cyfle cyntaf a chyn dadl y Senedd ar gynnig cydsyniad perthnasol – roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau gweithredu perthnasol gan Lywodraeth y DU, neu drafodaethau â hi, ar y mater penodol hwn.*

### *Ymateb – Derbyn*

Ar 12 Hydref 2021, cynigiodd Llywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i'r Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig.

Gwrthodais y cynnig hwn gan ei gwneud yn glir nad oedd yn ddigonol i fynd i'r afael â'n pryderon ac nad oedd yn parchu'r setliad datganoli. Nid oedd y gofyniad i ymgynghori yn rhoi unrhyw sicrwydd na allai'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i orfodi rheoliadau ar Gymru, gan y byddai Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn rhydd i ddiystyru unrhyw bryderon neu wrthwynebiad gan Weinidogion Cymru yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd fy ymateb hefyd yn nodi pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â'r cyfuniad o bwerau cydredol a phwerau Harri VIII yn y Bil, a gofynnais i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i sicrhau na allai Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ar 2 Rhagfyr, cynigiodd Llywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer gweithdrefn ymgynghori fanylach. Fodd bynnag, methodd y gwelliant hwn eto â pharchu'r setliad datganoli a bodloni ein gofyniad bod Llywodraeth y DU yn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

Ar 9 Rhagfyr, cynigiodd Llywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i'r Bil ar gyfer cyflwyno eithriad penodol o ofynion cydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Byddai'r gwelliant wedi golygu na fyddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i Senedd Cymru allu dileu'r pwerau cydredol sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor o dan y Bil i wneud rheoliadau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Fodd bynnag, eglurodd Llywodraeth y DU mai dim ond pe byddwn yn cytuno i argymell y dylai'r Senedd gydsynio i'r Bil y byddai'r gwelliant hwn yn cael ei gyflwyno.

Er bod y gwelliant hwn i'w groesawu, fy ymateb i'r cynigion hyn oedd nad oeddwn yn gallu argymell i'r Senedd gydsynio i'r Bil hwn heb welliant pellach i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU sicrhau cydsyniad llywodraethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

Cefais gyfarfod gyda Gweinidog Llywodraeth y DU dros Fuddsoddi, yr Arglwydd Grimstone, a'r Gweinidog dros Fusnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur a Gweinidog dros Lundain, Paul Scully AS, ar 6 Ionawr 2022 i egluro fy mhryderon ymhellach, ac i ailadrodd fy safbwynt y dylai'r pwerau yn y Bil hwn gyd-fynd â'r setliad datganoli. Yn dilyn hynny, ceisiodd Llywodraeth y DU roi sicrwydd drwy nodi rhai sefyllfaoedd posibl lle'r oeddent o'r

farn y gallai fod yn briodol defnyddio'r pwerau cydredol yn y Bil i ddeddfu ar sail y DU gyfan, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig, ond methwyd â darparu dadansoddiad manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch pam na ellid gwneud y pwerau hynny yn amodol ar ofyniad i gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad 2.** *Dylai'r Gweinidog – ar y cyfle cyntaf a chyn y ddadl yn y Senedd ar gynnig cydsyniad perthnasol – roi rhagor o wybodaeth ynghylch sut a phryd y gwnaeth Llywodraeth y DU ei safbwynt yn glir mewn perthynas â chymal 16(5) (cymal 14(5) yn flaenorol) a rhoi mwy o fanylion am y sicrwydd, a sut y mae sicrwydd o'r fath wedi lleddfu pryderon blaenorol y Gweinidog.*

*Ymateb – derbyn*

Ym mharagraff 6 o'm [llythyr dyddiedig 10 Medi 2021](#) at y Pwyllgor, nodais esboniad Llywodraeth y DU o gymal 14(5) (16(5) erbyn hyn).

Roeddem yn pryderu bod Llywodraeth y DU wedi rhagdybio y dylai Biliau'r DU sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru gael eu drafftio bob amser mewn ffordd sy'n sicrhau bod cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yn cyd-fynd.

Ar 29 Medi ysgrifennodd Llywodraeth y DU i gadarnhau eu safbwynt bod achosion lle nad yw cymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol yn cyd-fynd.

Er fy mod yn fodlon â'r canlyniad hwn, fy mhryder yn gyffredinol yw bod y pwerau cydredol yn y Bil yn annerbyniol, am y rhesymau a amlinellir uchod.